

MANIFFESTO HEDDWCH

Mae Cymdeithas y Cymod eisiau gweld Cymru sy'n deg a chydadd i bob un o drigolion ein cenedl. Dyma ein maniffesto Heddwch ar gyfer etholiadau'r Senedd 2021. Rydym yn galw ar ymgeiswyr, a Llywodraeth newydd Cymru, i ystyried rôl heddwch yn ein cymdeithas a sut y gallai weithio dros heddwch gryfhau ein cymunedau. I gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 rydym yn galw ar bleidiau gwleidyddol i fabwysiadu ein pwyntiau gweithredu er mwyn creu Cymru sy'n gweithredu dros heddwch:

ADDYSG

1. MILITARIAETH YN EIN HYSGOLION

Cymru, ynghyd â gweddill y DU, yw'r unig wlad yn Ewrop sy'n parhau i recriwtio pobl rhwng 16 ac 18 oed i'r fyddin. Mae hi'n bosib felly i berson ifanc yng Nghymru gael ei recriwtio i'r fyddin tra'n ddisgyblysgol o hyd. Mae adroddiad diweddar Cymdeithas y Cymod, ar y cyd gyda Peace Pledge Union, yn amlygu'r peryglon amlwg sy'n deillio o'r arfer yma a galwn ar Lywodraeth nesaf Cymru i

-> wahardd y fyddin rhag recriwtio Cymry ifanc o dan 18 oed i'w rhengoedd.

2. CWRICWLWM NEWYDD

Mae heddychiaeth yn rhan bwysig o hanes Cymru ac mae lansiad y cwricwlwm newydd yn gyfle i adlewyrchu hynny. Mae Cymdeithas y Cymod yn credu y dylid meithrin diwylliant di-drais yn ein hysgolion a'n colegau. Cefnogwn lansiad diweddar yr Academi Heddwch yng Nghymru, ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn mynd o nerth i nerth, gan greu lle amlwg a chanolog i adlewyrchu a datblygu heddychiaeth yng Nghymru. Trwy osod heddychiaeth yn ganolog yn niwylliant ein hysgolion a'n colegau, credwn y gellir cyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd yn llawer iawn rhwyddach. Effaith pellgyrhaeddol hyn fydd

-> i ddysgu pobl ifanc Cymru sut i drin eu hunain ac eraill gyda pharch a charedigrwydd a sut i ddatrys problemau ac anghytundebau mewn dull heddychlon gan osod seiliau da i'r dyfodol .

LLESIANT

3. HYRWYDDO HEDDWCH

Rydym yn cydnabod rôl Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd ar greu newidiadau cymdeithasol. Mae gweithredu dros heddychiaeth yr un mor bwysig a'i ddefnyddio fel symbol. Trwy gyd-weithio gyda mudiadau fel Cymdeithas y Cymod dylai'r llywodraeth

-> dargedu hyrwyddo heddwch yn eu gweithle a buddsoddi mewn ffyrdd o gyflawni hyn.

4. ARALLGYFEIRIO DIWYDIANT ARFAU

Er mwyn cyd-fynd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dylai'r Llywodraeth edrych ar greu Cymru lewyrchus sy'n "cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur." Fesul pen mae poblogaeth Cymru yn talu £572.40 y flwyddyn am y diwydiant arfau. Onid oes ffordd fwy cynaliadwy i wario'r arian prin yma? Mae adferiad gwyrdd yn hanfodol os ydym am weld Cymru'n creu economi sy'n gynaliadwy a pherthnasol i ddyfodol ei phobl.

-> **Dylai'r Llywodraeth dargedu, creu a buddsoddi mewn swyddi gwyrdd yn hytrach na'r diwydiant arfau sydd yn creu dinistr amgylcheddol a threisgar ar draws y byd.**

5. AMGUEDDFA FILWROL / DINAS HEDDYCHLON

Mae cynlluniau diweddar sydd wedi eu cefnogi gan Gyngor Caerdydd i adeiladu Amgueddfa Filwrol ar dir gwyrdd yn Nhre-biwt yn tanseilio treftadaeth ardal y dociau a'r hanes o heddychiaeth sy'n bodoli yn y brifddinas. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i

-> **wrando ar wrthwynebiad pobl Tre-biwt a Chaerdydd, ac i ymrwymo i wrthod cynlluniau sy'n clodfori rhyfel a thrais ac yn hytrach, i fuddsoddi mewn dathlu diwylliant a threftadaeth holl gymunedau amrywiol Cymru.**

6. CYMRU A'R BYD

Galwn ar y llywodraeth newydd i ystyried o ddifri beth yw rôl Llywodraeth Cymru a'i pholisi rhyngwladol er mwyn "gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang." Cymru oedd cenedl Masnach Deg gynta'r byd, a dylid:

-> **sicrhau bod pob sefydliad yng Nghymru yn aros yn driw i'r safonau hynny.**

-> **bod yn agored a gonest am y gysylltiad sydd i'r diwydiant arfau yng Nghymru a sut mae hynny'n cyfrannu at ddiodefaint dros y byd.**

-> **cynnwys neges heddychiaeth fel rhan o gynhyrsgaeth Cymru i'r byd, a'i wreiddio yn holl gyfathrebu a strategaeth ryngwladol ein llywodraeth.**

7. GWAHARDDIAD AR ARFAU NIWCLEAR

Mae'r perygl o arfau niwclear yr un mor beryglus i Gymru ag ydynt i unrhyw genedl arall. Mae'r pandemig wedi amlygu na all arfau ein hamddiffyn rhag afiechydon mwyaf peryglus ein planed ac mae'n ffaith na all unrhyw les ddod i bobl na'r blaned o ddefnyddio arfau niwclear. Dyma gyfle i gyd-sefyll gyda dau draean o lywodraethau'r byd i alw ar y gwledydd sy'n parhau i feddu ar arfau niwclear i'w gwaredu'n ddiogel.

-> **Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi mewn egwyddor Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear y Cenhedloedd Unedig.**

8. DAD-FILTAREIDDIO EIN TIR

Mewn bron â bod pob cornel o Gymru mae ein tir yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi pobl i ladd mewn rhyfeloedd ar draws y byd. Er mwyn creu Cymru o gymunedau cydlynus, dylai'r ardaloedd hyn gael eu perchen gan natur a'r boblogaeth leol. Mae'n hen bryd i ni arallgyfeirio a chynnig i gymdogaethau fel yr Epynt a Chastellmartin eu tir yn ôl. Dyma gyfle euraid i greu dwsinau o ffermydd cyhoeddus y gellir eu gosod i genhedlaeth newydd o ffermwyr ifainc na fedr cael eu troed ar reng isa'r ysgol fel arall.

-> **Galwn ar lywodraeth Cymru i weithio i adleoli'r fyddin o diroedd Cymru.**